# Llywodraeth Cymru
# Cynnig Lleoliad Prosiect Ymchwil mewn Ymarfer

## Dadansoddi data o berthnasoedd rhwng cyfoedion gan ddefnyddio data o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

## Crynodeb o'r prosiect

Dyma gyfle cyffrous i fod ar leoliad gwaith gyda galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr interniaeth hon yn llunio tystiolaeth i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau polisi i gefnogi lles plant a phobl ifanc. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys dadansoddiad newydd o ddata meintiol presennol ar berthnasoedd rhwng pobl ifanc sy'n gyfoedion, gan gynnwys cyfeillgarwch a bwlio. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru i ymchwilio, dadansoddi data, llunio adroddiad, a pharatoi ar gyfer briffio Gweinidogion a swyddogion, ac ar gyfer cyhoeddi canfyddiadau. Bydd yr ymgeisydd yn cael y cyfle i roi ei sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i feithrin ei sgiliau cyffredinol ymhellach, ac i wella ei wybodaeth am ymchwil y tu allan i'r byd academaidd.

## Gwybodaeth am Leoliadau Ymchwil mewn Ymarfer Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru ac mae'n gyfrifol am yr economi, addysg, trafnidiaeth, iechyd a GIG Cymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd yng Nghymru.

Mae lleoliad yn Llywodraeth Cymru yn gyfle unigryw i weithio ochr yn ochr â swyddogion polisi ac ymchwilwyr, gan gymhwyso eich sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi byw. Cewch gyfle i ddatblygu ystod o sgiliau ymchwil tra'n dyfnhau eich dealltwriaeth o sut mae tystiolaeth yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

Yn ystod cyfnod y lleoliad, byddwch yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau o broffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Mae Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn darparu cyngor dadansoddol uchel ei ansawdd a thystiolaeth annibynnol i lywio penderfyniadau allweddol ym maes polisi. Mae eu gwaith yn cefnogi'r cylch polisi llawn—o ddeall a datblygu hyd at weithredu, monitro a gwerthuso. Bydd myfyrwyr ar leoliadau hefyd yn cyfrannu at ymdrechion ehangach i gefnogi cyd-weithwyr ym maes polisi i lywio a chyflawni polisi effeithiol.

## Y Prosiect

**Dadansoddi data o berthnasoedd rhwng cyfoedion gan ddefnyddio data o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**

*Y Cefndir*

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Pob Oed 2025–2035 yn tynnu sylw at sut mae perthnasoedd â chyfoedion yn siapio yn sylweddol allu plant i ymdopi â straen, gwneud penderfyniadau da, ac ymgysylltu â'u cymunedau. Caiff cyfeillgarwch ei ystyried yn sylfaen ar gyfer iechyd meddwl. Mae'r strategaeth iechyd meddwl yn blaenoriaethu mynediad cynnar, di-dor at gymorth ar gyfer heriau emosiynol sy'n deillio o broblemau rhwng cyfoedion. Bydd y prosiect hwn yn dadansoddi data ysgolion cynradd ac uwchradd i ddeall pryd mae problemau yn dod i'r amlwg a sut mae perthnasoedd rhwng cyfoedion yn datblygu yn ystod plentyndod a llencyndod.

Mae'r Fframwaith Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol, sy'n ganllaw statudol ar gyfer pob ysgol a lleoliad yng Nghymru, yn sail i bob agwedd ar ddarpariaeth llesiant ac iechyd meddwl. Mae'n rhoi pwyslais ar greu amgylchedd ysgol cadarnhaol lle mae perthnasoedd cryf, ymdeimlad o berthyn, ac arferion cynhwysol wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o fywyd bob dydd. Disgwylir i ysgolion roi'r fframwaith ar waith drwy feithrin perthnasoedd cefnogol rhwng cyfoedion a staff, hyrwyddo llythrennedd emosiynol, a sicrhau bod llesiant yn ategu'r cwricwlwm. Bydd y prosiect hwn hefyd yn ystyried a yw ysgolion yn bodloni'r disgwyliadau hyn yn ymarferol a sut mae'r egwyddorion hyn yn dylanwadu ar brofiadau a deilliannau disgyblion.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ymgorffori llesiant emosiynol, sgiliau cymdeithasol, a dinasyddiaeth weithredol, gan hyrwyddo rhyngweithio rhwng cyfoedion fel sgìl sy'n hanfodol ar gyfer dysgu a datblygu. Gwell atal clwyf na'i wella: mae dull strategol Cymru yn ceisio grymuso plant ac ysgolion i adeiladu rhwydweithiau cyfoedion cefnogol cyn i fwlio ddigwydd. Bwriad yr ymchwil hon yw deall y perthnasoedd cadarnhaol rhwng cyfoedion y mae plant eisoes yn eu meithrin, yn ogystal â heriau fel bwlio ac ynysigrwydd.
Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Canllawiau gwrth-fwlio Hawliau, Parch, Cydraddoldeb wedi'u diweddaru yn gynnar yn 2026. Mae'r canllawiau hyn yn hyrwyddo datblygiad perthnasoedd cadarnhaol a pharchus rhwng cyfoedion mewn

ysgolion. Mae'n ceisio ymgorffori'r gwerthoedd hyn yn amgylchedd yr ysgol i feithrin ymdeimlad o berthyn, empathi a pharch ar y ddwy ochr.

Bydd y prosiect hwn yn ategu darnau eraill cyfredol o waith megis adolygiad thematig Estyn ar berthnasoedd iach rhwng cyfoedion, a'r ymchwil y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ei chomisiynu ar berthnasoedd rhwng cyfoedion mewn ysgolion cynradd. Bydd hefyd yn adeiladu ar adroddiadau blaenorol fel adroddiad 2021 Estyn ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion uwchradd, ac argymhellion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ynghylch bwlio. Disgwylir i'r ymchwilydd ymgorffori dealltwriaeth o'r ymchwil sy'n bodoli eisoes ar y pwnc, fel papur 2024 Donaldson et al., 'Mental health, bullying and school connectedness: A comparative analysis of school transition at age 11 from within the Welsh education system' ac astudiaeth 2025 Lereya et al., 'Bullying victimisation, self-esteem and perceived appearance among minoritised sexual and gender identities in adolescence'.

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) yn gofyn amrywiaeth eang o gwestiynau sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant i ddysgwyr 7-16 oed i greu tystiolaeth o ansawdd uchel i gefnogi plant a phobl ifanc. Byddwch yn defnyddio unrhyw ddata perthnasol gan SHRN i gymharu ansawdd cyfeillgarwch, cyfraddau bwlio a seiberfwlio, a mesurau llesiant cysylltiedig ar draws cyd-destunau ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd yr ymchwil yn archwilio a yw cyfnodau neu grwpiau demograffig penodol yn dangos patrymau nodedig. Bydd yr adroddiad yn trafod goblygiadau polisi y dystiolaeth a gasglwyd, a rennir wedyn â'r swyddogion polisi perthnasol a thimau ymchwil Llywodraeth Cymru.

*Yr interniaeth:*
Bydd yr intern yn gweithio gyda'r Is-adran Tegwch mewn Addysg a dau dîm yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi: Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ymchwil Ysgolion. Bydd angen i'r intern weithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr cymdeithasol a bydd cyfle i gymhwyso sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi. Bydd yr interniaeth hefyd yn cynnig cyfle ar gyfer datblygu ymhellach sgiliau meintiol a rhai cyffredinol (megis llunio adroddiadau a gwneud cyflwyniadau), a gwella gwybodaeth am bolisi.

Caiff interniaid fudd o weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru gan gynnwys:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru

- Dysgu am y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN), sy'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Opsiwn i ymweld neu gyfnewid â thîm ehangach SHRN i gefnogi cydweithredu a datblygu'r gwaith. Dysgu am y set ddata iechyd a llesiant hon, gweithio mewn partneriaeth a chydweithrediad posibl â phartneriaid
- Cael y cyfle i weithio gyda chyd-weithwyr polisi i ystyried sut y gellir cymhwyso canfyddiadau ymchwil i'r cyd-destun polisi Cymreig
- Gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau llunio adroddiadau

*Canlyniadau disgwyliedig y prosiect:*

- Ystadegau disgrifiadol a dadansoddiad o ystod o agweddau ar berthnasoedd rhwng cyfoedion (gan gynnwys cysylltiad â ffrindiau, bwlio, a phroblemau rhwng cyfoedion) a sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl oedran, rhywedd, a ffactorau demograffig eraill
- Dadansoddiad o berthnasoedd rhwng cyfoedion gan reoli ar gyfer newidynnau fel oedran, rhywedd, a chyfoeth teuluol mewn perthynas â chanlyniadau iechyd a llesiant
- Adroddiad cryno o'r hyn y gallwn ei ddeall am berthnasoedd rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr ysgol gynradd ac ysgol uwchradd o'r data SHRN sy'n bodoli eisoes a'r goblygiadau ar gyfer polisi
- Cyflwyniad o'r canfyddiadau i dimau polisi ac ymchwil gymdeithasol perthnasol
- Paratoi adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru
- Opsiwn i gyd-ddatblygu papur ymchwil gydag academyddion y Ganolfan Datblygu, Gwerthuso, Cymhlethdod a Gweithredu mewn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) SHRN i'w gyflwyno i gyfnodolyn wedi'i adolygu gan gymheiriaid

**Pa sgiliau sydd eu hangen arnom?**

Rydym yn croesawu unigolion sy'n gallu dod â'r sgiliau a'r profiad canlynol i'r rôl:

- Sgiliau dadansoddi data meintiol, gan gynnwys y gallu i ymgymryd ag ystod o dechnegau ystadegol, rhifiadol a dadansoddol (gweler y tabl isod) gan ddefnyddio meddalwedd briodol fel STATA, SPSS, R, neu Python
- Sgiliau arfarnu tystiolaeth cryf

- Y gallu i gynnal trafodaethau â thimau polisi i ddeall eu hanghenion ac i gynnal ymchwil ddesg a dadansoddi data
- Y gallu i werthuso canfyddiadau ymchwil a gweithio gyda chydweithwyr polisi i ystyried sut y gellir eu cymhwyso
- Y gallu i lunio dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda, gan gyflwyno tystiolaeth gymhleth mewn fformat hygyrch

| | | |
|---|---|---|
| Ystadegau disgrifiadol | Cymedr, canolrif, modd, tablau amlder, croesdablu | Crynhoi ac archwilio data |
| Delweddu data | Histogramau, plotiau blwch, plotiau gwasgariad, siartiau bar | Nodi patrymau a dosbarthiadau |
| Glanhau a pharatoi data | Trin data coll, ail-godio newidynnau, creu newidynnau dymi | Paratoi data i'w dadansoddi |
| Ystadegau casgliadol | Profion-t, profion chi-sgwâr, ANOVA | Profi gwahaniaethau rhwng grwpiau |
| Modelu atchweliad | Atchweliad llinol, atchweliad logistaidd, atchweliad amlamryweb | Archwilio cysylltiadau a rheoli ar gyfer newidynnau drysu |
| Rheolaeth amlnewidyn | Termau rhyngweithio, dadansoddi haenedig, paru sgorau tueddiad | Addasu ar gyfer oedran, rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, etc. |
| Casgliadau achosol | Dadansoddi hydredol, effeithiau penodedig, newidynnau cyfryngol | Cryfhau honiadau achosol |

## Amserlenni'r lleoliad

Bydd y lleoliad yn para am gyfnod o 3 mis. Disgwylir i'r lleoliad ddechrau heb fod yn gynharach na mis Ebrill 2026.

Bydd y dyddiad dechrau yn cael ei drafod â'r ymgeisydd llwyddiannus ac efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a threuliau

Mae'r cyfle hwn ar agor dim ond i fyfyrwyr a ariennir drwy gynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (a ddyfernir ers mis Hydref 2024) y mae'n ofynnol iddynt gwblhau lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer. Mae'r lleoliad yn ddi-dâl, fodd bynnag, byddwch yn parhau i dderbyn eich ariantal ESRC. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu talu unrhyw gostau adleoli sy'n gysylltiedig â'r lleoliad.

Gellir hawlio costau teithio a chynhaliaeth rhesymol yr eir iddynt wrth gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, yn amodol ar gytundeb ymlaen llaw â goruchwyliwr y lleoliad ac yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth Llywodraeth Cymru.

## Trefniadau gweithio

Oriau gweithio Llywodraeth Cymru yw 37 awr yr wythnos, 7 awr 24 munud y diwrnod ar gyfartaledd. Gyda chytundeb ymlaen llaw â goruchwyliwr y lleoliad, efallai y byddwch yn gallu gweithio oriau hyblyg yn unol ag arferion Llywodraeth Cymru. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, efallai y bydd y lleoliad hwn ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy, i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, dylech nodi'r oriau gweithio a ffefrir ar y ffurflen gais.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng y cartref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod y lleoliad. Gall hyn newid, gan ddibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau gweithio yn cael eu trafod â'r ymgeiswyr llwyddiannus.

## Gofynion cenedligrwydd a fetio diogelwch

I fod yn gymwys ar gyfer y lleoliad hwn yn Llywodraeth Cymru, rhaid bodloni Rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni fydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu ymgymryd â lleoliad.

Bydd hi'n ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus gael eu fetio gan Lywodraeth Cymru (mae hyn yn berthnasol i staff dros dro ynghyd â staff parhaol).  Bydd hyn yn cynnwys cwblhau ffurflen gais gwiriad y Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect lleoliad hwn, dyma'r manylion cyswllt: Freya Pryce freya.pryce@llyw.cymru

Os hoffech wybodaeth am gyfleoedd lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer yn Llywodraeth Cymru, cysylltwch â:

Katy Marrin a James Carey, Cyd-benaethiaid Cynllunio Gweithlu a Safonau Proffesiynol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth
PennaethCynllunioGweithluSafonauProffesiynolGSR@llyw.cymru

Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â Lleoliadau Ymchwil mewn Ymarfer, cysylltwch â:
Sian Shepherd yn Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru
esrcrip@bangor.ac.uk